



# TRAWSNEWID CYMRU TRWY FENTER GYMDEITHASOL






# CRYNODEB

# EIN GWELEDIGAETH AR GYFER MENTER GYMDEITHASOL 2020-2030

Fel sector, ein gweledigaeth yw Cymru lle:

Bydd y gallu a'r adnoddau gan y sector y mae eu hangen arno i ymgymryd â'r heriau sy'n wynebu Cymru. Byddwn yn tyfu ac yn datblygu'r sector erbyn 2030 trwy gynyddu nifer y mentrau cymdeithasol, eu trosiant cyfunol a'u heffaith gymdeithasol.

Rydym eisiau adeiladu mudiad eang, wedi'i glymu gan egwyddorion a gwerthoedd cyffredin. Byddwn yn datblygu cynghreiriau moesegol gyda mudiad ehangach o fusnesau a mudiadau cymdeithasol gyfrifol gyda'r nod o adeiladu economïau democrataidd, cynaliadwy a chynhwysol a mynd i'r afael â'n hargyfwng hinsawdd.




Mae menter gymdeithasol yn rhan annatod, a gweladwy, o fywyd bob dydd. Rydym eisiau dod â phobl ynghyd i wneud i newid cadarnhaol ddigwydd a sicrhau bod gan y mentrau cymdeithasol y tu ôl i'r newid hwn y proffil y maent yn ei haeddu/ei angen.

Erbyn 2030, menter gymdeithasol fydd y model busnes a ddewisir ar gyfer entrepreneuriaid sy'n cyflawni atebion i heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Cymru fydd y lle gorau i ddechrau a thyfu menter gymdeithasol.

Mae'r sector menter gymdeithasol yn cael ei gefnogi a'i ddatblygu wrth iddo godi o'r pandemig COVID-19.

Cefnogir y Weledigaeth ar gyfer menter gymdeithasol yng Nghymru gan gynllun gweithredu sydd wedi'i ddylunio i ailadeiladu, tyfu a chryfhau'r sector menter gymdeithasol a'i alluogi i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Cymru. Mae'r Cynllun Gweithredu yn canolbwyntio ar naw o ddeilliannau.

# DEILLIANNAU

**1** Bydd mwy o bobl yn dewis ymgysylltu â mentrau cymdeithasol – fel cwsmeriaid, cyflogeion, gwirfoddolwyr neu arweinwyr

**2** Bydd mwy o bobl yn dewis model menter gymdeithasol i ddechrau busnes newydd

**3** Bydd llunwyr polisi yn rhoi blaenoriaeth i atebion menter gymdeithasol wrth ystyried sut i fynd i'r afael â phroblemau a chreu amodau sy'n helpu mentrau cymdeithasol i ailadeiladu a ffynnu

**4** Bydd mentrau cymdeithasol wedi'u cysylltu'n well â'i gilydd a byddant yn siarad gyda llais mwy unedig

**5** Bydd mentrau cymdeithasol yn chwarae rhan fwy i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwarchod yr amgylchedd

**6** Bydd mentrau cymdeithasol yn mabwysiadu arferion Gwaith Teg, yn talu'r Cyflog Byw ac yn cynyddu amrywiaeth ymhlith eu cyflogeion a gwirfoddolwyr

**7** Bydd mentrau cymdeithasol yn gallu manteisio'n well ar dechnoleg ddigidol er lles cymdeithasol

**8** Bydd ystod a gwerth opsiynau cyllid wedi'u teilwra at anghenion mentrau cymdeithasol yn cynyddu

**9** Bydd cymorth busnes arbenigol o ansawdd da, wedi'i deilwra at anghenion y sector, ar gael i bawb y mae ei angen arnyn nhw

Gobeithiwn y gwnewch ymuno â ni wrth ymrwymo i'r Weledigaeth a'r Cynllun Gweithredu hwn, a'u cyflawni, ar gyfer y Sector Menter Gymdeithasol yng Nghymru.

Deilliodd y ddogfen hon o broses gyfunol yn cynnwys mentrau cymdeithasol a chyrff cymorth sector ac mae ganddi gefnogaeth Llywodraeth Cymru.

# CYNNWYS

RHAGAIR........ 5

YNGLŶN Â'R WELEDIGAETH HON A'R CYNLLUN GWEITHREDU........ 6

ADEG O NEWID........ 7

YMATEB MENTER GYMDEITHASOL I HERIAU EIN HOES........ 12

EIN GWELEDIGAETH AR GYFER MENTER GYMDEITHASOL........ 15

YMDRECH GYFUNOL........ 16

CYNLLUN GWEITHREDU I GYFLAWNI'R WELEDIGAETH........ 17

DEILLIANNAU........ 18

DEILLIANT 1: Bydd mwy o bobl yn dewis ymgysylltu â mentrau cymdeithasol – fel cwsmeriaid, cyflogeion, gwirfoddolwyr neu arweinwyr........ 19

DEILLIANT 2: Bydd mwy o bobl yn dewis model menter gymdeithasol i ddechrau busnes newydd........ 20

DEILLIANT 3: Bydd llunwyr polisi yn rhoi blaenoriaeth i atebion menter gymdeithasol wrth ystyried sut i fynd i'r afael â phroblemau a byddant yn creu amodau sy'n helpu mentrau cymdeithasol i ailadeiladu a ffynnu........ 21

DEILLIANT 4: Bydd mentrau cymdeithasol wedi'u cysylltu'n well â'i gilydd a b yddant yn siarad gyda llais mwy unedig........ 22

DEILLIANT 5: Bydd mentrau cymdeithasol yn chwarae rhan fwy i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a gwarchod yr amgylchedd........ 23

DEILLIANT 6: Bydd mwy o fentrau cymdeithasol yn mabwysiadu arferion Gwaith Teg, yn talu'r Cyflog Byw ac yn cynyddu amrywiaeth ymhlith eu cyflogeion a gwirfoddolwyr........ 24

DEILLIANT 7: Bydd mentrau cymdeithasol yn gallu manteisio'n well ar dechnoleg ddigidol er lles cymdeithasol........ 25

DEILLIANT 8: Bydd ystod a gwerth opsiynau cyllid wedi'u teilwra at anghenion mentrau cymdeithasol yn cynyddu........ 26

DEILLIANT 9: Bydd cymorth busnes arbenigol o ansawdd da, wedi'i deilwra at anghenion y sector, ar gael i bawb y mae ei angen arnyn nhw........ 27

ATODIAD: BETH YW MENTER GYMDEITHASOL?........ 28

BYW EIN GWERTHOEDD – EIN FFYRDD O WEITHIO........ 29

CYDNABYDDIAETHAU........ 30

# RHAGAIR

Pan wnaeth gwneuthurwr tecstilau, dyngarwr a diwygiwr cymdeithasol o Gymru, Robert Owen, sefydlu'r mudiad cydweithredol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid yn unig y creodd fodel economaidd a gyflawnodd amodau gwell i weithwyr ochr yn ochr â llwyddiant masnachol, ond fe wnaeth eirioli dros newidiadau cymdeithasol ehangach hefyd a arweiniodd at gymunedau mwy cydlunus, safonau addysg uwch ac iechyd a lles gwell.

Roedd y cyfnod yr oedd Owen yn byw ynddo yn gyfnod o gynnwrf cymdeithasol, datblygiadau technolegol a newid economaidd aruthrol. Yn 2020, mae'r byd yn wynebu heriau sy'n fwy na chyfateb i gythrwfl yr amseroedd hynny. Mae angen i Gymru ddatblygu, yn union fel y mae gwledydd eraill a chenhedloedd bychain yn gwneud.

150 o flynyddoedd yn ôl, ymatebodd Owen i newid gyda syniadau entrepreneuraidd a wellodd bywydau pobl. Bellach, mae'r mudiad menter gymdeithasol a gychwynnodd yn ffenomen fyd-eang, sy'n barod i fynd i'r afael â heriau modern, cipio cyfleoedd a bod yn rym uno er lles cymdeithasol. Mae mentrau cymdeithasol yng Nghymru yn rhan weithredol o'r mudiad rhyngwladol hwn, yn barod i herio modelau economaidd y gorffennol ac ailadeiladu economi decach, fwy cynhwysol a chynaliadwy.

Yn 2020, mae'r sector menter gymdeithasol yng Nghymru wedi tyfu i fwy na 2,000 o fentrau cymdeithasol yn cyflogi 55,000 o bobl ac yn cyfrannu dros £3bn i'r economi. Mae mentrau cymdeithasol[1] yn rhan bwysig a dynamig o'r economi. Maent yn darparu gwasanaethau, swyddi, hyfforddiant a chyfleoedd i wirfoddoli mewn cymunedau lleol ar hyd a lled Cymru. Ond er mwyn mynd i'r afael â heriau a manteisio ar gyfleoedd y degawd nesaf, mae angen i'r sector ymadfer o effaith y pandemig COVID-19, ailadeiladu a thyfu. Mae angen iddo gynyddu ei gapasiti i ddarparu cynhyrchion a gwasanaethau mewn ffyrdd cymdeithasol gyfiawn, mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a gwella bywydau a bywoliaethau pobl yng Nghymru.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chydweithwyr ein sector a rhanddeiliaid eraill i gyflawni'r nod hwn.

[1] Mae'r term mentrau cymdeithasol yn cynnwys cydweithfeydd, sefydliadau cydfuddiannol, cwmnïau buddiannau cymunedol, busnesau sy'n berchen i'r gymuned, elusennau masnachu ac entrepreneuriaid cymdeithasol unigol. Gweler atodiad 1 am ddiffiniad manylach.

# YNGLŶN Â'R WELEDIGAETH HON A'R CYNLLUN GWEITHREDU

Mae'r weledigaeth a'r cynllun gweithredu wedi'u cynhyrchu ar y cyd gan fentrau cymdeithasol ac asiantaethau cymorth menter gymdeithasol yng Nghymru ac mae ganddi gefnogaeth Llywodraeth Cymru. Mae'n ganlyniad ymarferiad ymglymu cynhwysfawr a oedd yn cynnwys gwaith arolwg, sesiynau ymgynghori ledled Cymru a gweithdai yng nghynhadledd genedlaethol Busnes Cymdeithasol Cymru.

Y nod yw darparu gweledigaeth glir o botensial mentrau cymdeithasol i gyfrannu at fywydau a bywoliaethau pobl yng Nghymru wrth iddynt ailadeiladu o effeithiau'r pandemig COVID-19, yn ogystal â mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae cynllun gweithredu blaengar yn cyd-fynd â'r weledigaeth hon a fydd, yn y tymor byr, yn cynorthwyo'r sector i ymadfer, ond bydd hefyd yn dwyn y sector yn ei flaen ac yn sicrhau ei fod yn cyflawni ei botensial llawn.

**Bwriedir i'r ddogfen hon:**

- Osod menter gymdeithasol yng nghyd-destun penodol newidiadau amgylcheddol, cymdeithasol, technolegol, economaidd a gwleidyddol yng Nghymru
- Rhoi trosolwg byr o'r sector menter gymdeithasol bresennol yng Nghymru
- Cyflwyno gweledigaeth ar gyfer y sector menter gymdeithasol a'i le yn nyfodol Cymru
- Amlygu camau gweithredu a fydd yn galluogi'r sector i ailadeiladu, canolbwyntio ac amrywio ei weithgareddau, ac yn y tymor hir cyflawni ei botensial llawn.

# ADEG O NEWID

Mae sylwebyddion yn dweud yn fynych bod cyflymder newid wedi cynyddu ers dechrau'r unfed ganrif ar hugain. Mae gan y pandemig COVID-19, law yn llaw â phrosesau lle ceir difrod amgylcheddol a achosir gan bobl, digidoleiddio, newid demograffig a globaleiddio, bob un ohonynt, oblygiadau arwyddocaol i Gymru.



## COVID-19

Mae effeithiau pandemig COVID-19 ar y sector menter gymdeithasol yng Nghymru, hyd yma, wedi amrywio'n sylweddol. Gorfodwyd llawer o fentrau cymdeithasol i gau dros dro, tra'r oedd rhai eraill ar reng flaen yr ymdrech ymateb yn darparu cymorth cymunedol hollbwysig i'r rhai mwyaf agored i niwed. Fe wnaeth rhai eraill arallgyfeirio'u cynnyrch a'u gwasanaethau, ac roedd hynny wedi'u galluogi i barhau i weithredu yn ystod y cyfnod anodd hwn. Fodd bynnag, prif amcan llawer o fentrau cymdeithasol fu goroesi.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol, yn ddealladwy, wedi gwario symiau sylweddol o arian wrth ddelio gydag effaith uniongyrchol yr argyfwng. Mae sefydliadau ariannu eraill, gan gynnwys elusennau a sefydliadau, wedi ymateb mewn modd tebyg hefyd. O ganlyniad, mae llawer o fentrau cymdeithasol ac asiantaethau cymorth yn pryderu ynghylch y cymorth ariannol ar gyfer y sector yn y blynyddoedd i ddod, yn enwedig yn y tymor canolig i'r tymor hir.


Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod beth yw effaith lawn y pandemig ar y sector menter gymdeithasol, fodd bynnag, mae COVID-19 wedi cyflymu'r angen i newid a chymhelliant pobl a chymunedu i ailadeiladu pethau yn wahanol. Gallai'r newid ymagwedd hwn arwain at gyfleoedd i'r sector yn y dyfodol.



## TLODI AC ANGHYDRADDOLDEB CYNYDDOL

Canfu'r adroddiad diweddaraf gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod tlodi ac amddifadedd yng Nghymru yn waeth nag yng ngweddill y DU. Mae pobl anabl, yn benodol, yn syrthio ar ei hôl hi mwy a mwy, a gwrthodir yr hawl iddynt fyw'n annibynnol. Mae'r sefyllfa wedi'i dwysáu gan effeithiau'r pandemig, ac mae ymchwil yn dangos fod COVID-19 wedi effeithio'n anghymesur ar ein cymunedau tlotaf (IWA, 2020; Sefydliad Bevan, 2020). Mae'n rhaid i ni hefyd gydnabod y cyfraddau risg anghymesur rhwng Cawcasaidd a BAME o ran COVID-19, sy'n dwysáu effaith economaidd-gymdeithasol ychwanegol yr argyfwng a deimlir gan lawer yn y grŵp olaf oherwydd anghydraddoldebau sy'n bodoli'n barod. Mae modelau menter gymdeithasol yn cynnig atebion i broblemau systemig yn ein strwythurau economaidd-gymdeithasol; fodd bynnag, mae anghydraddoldebau yn bresennol yma hefyd, er enghraifft, dim ond naw y cant o fusnesau cymdeithasol yng Nghymru sydd ag arweinydd o gefndir Pobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig (BAME). Fel asiantaethau cymorth i'r sector rydym yn cydnabod fod angen i'r sector wneud cynnydd er mwyn gwir adlewyrchu wyneb Cymru o ran amrywiaeth, ac os ydym am gyflawni hyn, mae'n rhaid i ni fod yn fwy agored i'r anghydraddoldebau a'r rhagfarnau yn y byd menter gymdeithasol.

## POBLOGAETH SY'N HENEIDDIO



Mae adroddiad Llywodraeth Cymru, Tueddiadau'r Dyfodol, yn rhagweld tuedd gynyddol tuag at boblogaeth sy'n heneiddio. Ceir y potensial yn hyn i niweidio twf economaidd ac, yn ei sgil, daw ag angen cynyddol am ofal cymdeithasol o ansawdd uchel a phwysau ar wasanaethau iechyd. Yn ogystal, mae pobl hŷn yn arbennig o agored i deimlo'n ynysig ac yn unig.

## NEWID ARFERION GWEITHIO



Mae gwaith contract dim oriau dros y degawd diwethaf wedi cynyddu ddengwaith i dros 800,000 yn y DU. Bydd y duedd yn parhau wrth i ansicrwydd a phwysau economaidd gynyddu. Bu llawer o ddadlau ynghylch y duedd cyflogaeth hon, gyda llond llaw o sefydliadau yn wynebu camau cyfreithiol ynghylch lefelau cyflogau, gwrthod pensiynau a gwrthod hawliau gwyliau. Mae'r duedd hon yn cynnwys y potensial i leihau hawliau gweithwyr a gwydnwch economaidd yng Nghymru. Y rheiny ar gontractau dim oriau fu un o'r grwpiau yr effeithiwyd arnynt waethaf yn ystod y pandemig COVID-19 (Understanding Society, 2020).



## ARGYFWNG HINSAWDD

Mae argyfwng hinsawdd yn effeithio ar Gymru a gweddill y byd. Mae angen ymateb i'r argyfwng hwn ar fyrder i symud i ffwrdd oddi wrth danwydd ffosil a diwydiannau sy'n allyrru llawer o garbon, lleihau cam-fanteisio ar adnoddau ac addasu i'r canlyniadau sy'n effeithio ar batrymau tywydd a bioamrywiaeth. Byddai methiant i ymateb yn drychinebus, ac er y gallai newid i economi fwy cynaliadwy fod yn gyfle aruthrol, mae perygl y gallai hyn gymryd gormod o amser ac y gallai rhai cymunedau a gweithwyr mewn rhai diwydiannau Cymreig traddodiadol gael eu gadael ar ôl. Mae'r pandemig COVID-19 wedi arwain at lawer o bobl yn adolygu'r effaith a gânt ar yr amgylchedd, yn enwedig o ran y ffordd y maent yn gweithio ac yn teithio.

## Y PEDWERYDD CHWYLDRO DIWYDIANNOL



Rydym yn wynebu adeg drawsnewidiol wrth i dechnolegau digidol datblygol newydd gael eu defnyddio ar raddfa fawr ac yn gyflym. Daw addewid mawr yn sgil hyn, ond anawsterau posibl hefyd. Er y gallai esgor ar well cynhyrchiant, hyblygrwydd ac effeithlonrwydd, gallai hefyd arwain at fwy o anghydraddoldeb gydag awtomatiaeth yn disodli llafur.




## Y DIRWEDD WLEIDYDDOL

The changing policy agenda in Wales is Mae'r agenda polisi newidiol yng Nghymru yn rhoi pwysau newydd ar gyrff cyhoeddus. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn ystyried y modd y maent yn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy gymryd camau, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn ffordd sy'n ystyried yr economi leol, gofynion cymdeithasol a'r effaith ar yr amgylchedd. Mae'r gofynion hyn yn cael eu gosod ar gyrff cyhoeddus ar adeg pan fo cyni wedi lleihau cyllidebau a lefelau staffio yn ddramatig.

Mae Rhaglen Lywodraethu 2016-21 Llywodraeth Cymru yn rhoi ffocws hefyd ar ddarparu cymorth ar gyfer cydweithfeydd a chwmnïau cydfuddiannol a chefnogi prosiectau sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Mae Llywodraeth Cymru'n dymuno cynorthwyo'r economi sylfaenol a chwmnïau sefydledig.



## CYMUNEDAU DIFREINIEDIG

Mae llawer o bobl a chymunedau yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu a'u heithrio o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Yn aml, mae swyddi'n cael eu darparu gan fusnesau sy'n berchen i randdeiliaid allanol sydd heb unrhyw deyrngarwch i'r gymuned; mae canfyddiad fod penderfyniadau ynglŷn â seilwaith a gwasanaethau yn cael eu gwneud heb ymgynghori; mae adnoddau lleol, gan gynnwys iaith a diwylliant, yn cael eu tanbrisio. Mae pobl eisiau 'adennill rheolaeth' oddi wrth elitau pell. Mae'r duedd hon wedi arwain hefyd at ddemoneiddio pobl o'r tu allan a dwysáu rhaniadau cymdeithasol a gwleidyddol yn y gymdeithas Brydeinig.

## IECHYD A LLES SY'N DIRYWIO



Mae Cymru'n wynebu nifer o heriau iechyd a lles, a COVID-19 yn anad dim, yn enwedig wrth i ffyrdd o fyw mwy llonydd ddatblygu, wrth i deuluoedd fyw bywydau mwy darniog ac wrth i lawer o unigolion fod dan bwysau'r cyfryngau digidol. Mae gordewdra yn fygythiad sylweddol i iechyd y cyhoedd sy'n wynebu'r wlad. Yng Nghymru, mae 27% o blant yn y dosbarth gordrwm neu ordew, gan eu rhoi dan risg datblygu nifer o gyflyrau iechyd. Hefyd, mae mwy o bobl yn cael problemau iechyd meddwl ac mae niferoedd cynyddol o blant ac oedolion yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl. Mae'r tueddiadau hyn yn ychwanegu rhagor o straen at y GIG a gwasanaethau cyhoeddus eraill.



## ECONOMI DDRYLLIEDIG

Mae'r 40 mlynedd diwethaf wedi gweld yr economi wedi'i seilio ar y rheol mai 'marchnadoedd a ŵyr orau'. Mae hyn wedi sugno cyfoeth a phŵer i'r elît bach ac wedi arwain at anghydraddoldebau o ran grym economaidd a pherchnogaeth. Mae'r elît economaidd yn gwneud arian nid trwy wneud pethau sy'n ddefnyddiol yn gymdeithasol, ond yn hytrach drwy berchnogi a rheoli adnoddau cyffredin a thynnu cyfoeth oddi wrth rai eraill. Mae hyn wedi gwneud yr economi yn anghyfartal, yn ansicr ac yn anghynaliadwy.



## GRYM Y GENHEDLAETH MILFLWYDDOL

Canfu arolwg Deloitte, Millennials (2019) fod pobl ifanc o'r farn y dylai blaenoriaethau busnes gynnwys cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd a'r gymdeithas. Mae niferoedd cynyddol o bobl ifanc eisiau gweithio i sefydliad sy'n cael effaith fuddiol ar y byd, gyda negeseuon cymdeithasol cryf a safonau busnes moesegol. Maent yn fwy tebygol hefyd o fod yn ddefnyddwyr moesegol, yn prynu cynhyrchion wedi'u cynhyrchu'n foesegol, ac nad ydynt yn niweidiol i'r amgylchedd a'r gymdeithas. Gallai methu bodloni'r gofynion hyn yng Nghymru arwain at lefelau mudo uwch ymhlith pobl ifanc sy'n economaidd weithgar.

Mae llawer o'r heriau a amlinellwn uchod yn cael eu gwaethygu gan bandemig COVID-19, fodd bynnag, credwn mai mentrau cymdeithasol sy'n cynnig y ffordd fwyaf effeithiol i fynd i'r afael â'r heriau hyn a all sicrhau newid a fydd yn arwain at Gymru fwy cynaliadwy, ffyniannus, gwydn a chyfartal. Ond i wneud hyn mae angen i ni gefnogi, ailadeiladu ac yna tyfu'r sector, gan gynyddu ei wydnwch, ei allu i fynd i'r afael â phroblemau a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod mentrau cymdeithasol presennol yn gryf a chynaliadwy, yn cael eu cydnabod a'u cefnogi gan eu cwsmeriaid a'u cymunedau. Hefyd, mae angen i ni gefnogi mentrau cymdeithasol newydd, creu mudiad eang, wedi'i glymu gan egwyddorion a gwerthoedd cyffredin, sy'n gweithio ym mhob cymuned yng Nghymru ac ar gyfer pob cymuned yng Nghymru.



# YMATEB MENTER GYMDEITHASOL I HERIAU EIN HOES

Mae'r rhain yn ddyddiau ansicr a heriol, ond mae'n gyfnod o bosibilrwydd hefyd. Mae sefydlu grwpiau cymorth cydfuddiannol ledled y wlad i ymateb i'r pandemig yn dangos archwaeth a photensial ymagweddau cydfuddiannol i ymateb i heriau ein hoes.

**Gall ein ffordd ni o wneud busnes fynd i'r afael â'r heriau a amlinellwyd uchod.**



Mae mentrau cymdeithasol yn gwerthfawrogi'r amgylchedd lawn gymaint â phobl ac elw, a gallant arwain y ffordd wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae llawer yn gweithredu mentrau amgylcheddol mewn sectorau fel ynni adnewyddadwy, sero wastraff, bwyd, bioamrywiaeth a rheoli tir. Mae amcanion amgylcheddol a gwella'r ardal leol yn ganolog i nodau cymdeithasol rhai ohonynt. Maent mewn lle delfrydol i chwarae rhan allweddol i helpu gyda hyfforddi a datblygu sgiliau mewn cymunedau lleol fel rhan o drawsnewid gwyrdd, cyfiawn.

Trwy weithio gyda mentrau cymdeithasol, gall cyrff cyhoeddus fodloni'u rhwymedigaethau polisi a hyrwyddo'u cyfraniad at les yng Nghymru i'r eithaf. Mae mentrau cymdeithasol yn helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni ar draws nodau lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cydnabyddir y potensial i fenter gymdeithasol gyflawni gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Gall mentrau cymdeithasol chwarae rhan allweddol i gynorthwyo pobl i gael gofal a chymorth o ansawdd da.

Mae mentrau cymdeithasol yn rhan bwysig o'r economi sylfaenol ac maent yn rhannu llawer o nodweddion â busnesau sylfaenol. Maent wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau; maent yn aml yn berchen i'r cymunedau; maent yn cyflogi'n lleol ac yn aml mae gwella eu hardal leol yn ganolog i'w nodau cymdeithasol. Maent yn ffordd o sicrhau cyflenwad lleol o nwyddau a gwasanaethau mewn cyfnod o angen. Hefyd, mae busnesau cymdeithasol yn chwarae rhan arbennig wrth greu swyddi ar gyfer y farchnad lafur ac wrth ddatblygu sgiliau pobl sydd y tu allan i'r farchnad lafur.

Gall mentrau cymdeithasol helpu i ail-raglennu a thrawsnewid economi Cymru yn radical. Maent yn gweithio er budd pobl a chymunedau yn hytrach nag elitau corfforaethol, a'u nod yw bodloni anghenion cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth - ymdrinnir ag anghenion pawb fel rhai llawn mor bwysig â'i gilydd. Mae hapusrwydd a boddhad cyn bwysiced ag elw, gan ei gwneud yn bosibl i bobl fyw bywyd ystyrlon a boddhaus wrth gynnal systemau ecolegol ar yr un pryd. Mae creu cyfoeth yn ymdrech gyfunol, a gall pobl arfer eu creadigrwydd wrth gydweithredu.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod mentrau cymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gyflogwyr gwaith teg lle mae pobl yn cyflawni lles ac yn gwireddu'u potensial. Yng Nghymru, mae 76% o fusnesau cymdeithasol yn talu'r Cyflog Byw. Caiff staff eu cynnwys mewn penderfyniadau ac mae cymarebau cyflog yn tueddu bod yn llai. Pan fydd cyflogwyr yn ymrwymo i dalu Cyflog Byw gwirioneddol i'w staff, mae hefyd yn helpu cynyddu cynhyrchiant lleol ac yn hyrwyddo twf cynhwysol. Gall gwaith teg helpu cyflawni economi gryfach, wedi'i moderneiddio a mwy cynhwysol. Rydym mewn lle da i helpu cyflawni datblygu'r agenda gwaith teg yng Nghymru.

Mae mentrau cymdeithasol yn creu swyddi, yn mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb dan amodau economaidd anodd, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, ôl-ddiwydiannol, canol dinas ac arfordirol. Maent yn gweithredu ac yn ffynnu mewn ardaloedd lle nad yw busnesau eraill yn gallu gwneud hynny neu heb fod eisiau gwneud hynny. Yn y modd hwn, maent yn helpu sicrhau bod twf economaidd yn gynhwysol ac yn cyrraedd yr holl bobl a lleoedd yng Nghymru, gan leihau tlodi ac anghydraddoldeb.



Gall mentrau cymdeithasol gyflenwi gwasanaethau gofal o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar werth. Maent yn darparu gwasanaethau ymatebol dan gyfarwyddyd y dinesydd, gan roi llais cryfach a mwy o reolaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Mae mentrau cymdeithasol wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau a gallant ail-greu cysylltiadau corfforol yn y gymuned er mwyn lleihau unigrwydd ac unigedd.

Mae menter gymdeithasol yn grymuso cymunedau i ddod at ei gilydd i fynd i'r afael â materion sy'n bwysig iddynt. Gall menter gymdeithasol yn y gymuned gyflawni datblygiad economaidd lleol sy'n canolbwyntio ar bobl sy'n ymateb i angen y gymuned a lle mae cyfranogi a grymuso yn anhepgor. Gallant fynd i'r afael â theimladau o fod wedi'u gadael ar ôl trwy roi sylw i fethiannau penodol a chamu i feysydd nad yw'r sector cyhoeddus na'r sector preifat yn gallu mynd i'r afael â nhw.


Maent yn datblygu ffyrdd arloesol ac amrywiol o gynyddu perchnogaeth gymunedol a rheolaeth leol trwy greu mentrau a berchnogir yn lleol, datblygu a gwneud defnydd mwy cynhyrchiol o asedau cymunedol, adeiladau a thir, tai sy'n berchen i'r gymuned, ynni adnewyddadwy a chyllid, undebau credyd a chyfranddaliadau cymunedol.

Dylai mentrau cymdeithasol yng Nghymru fod yn gyflogwyr deniadol i bobl ifanc fel sefydliadau sy'n bodoli i gyflawni diben cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Gallant ddarparu nwyddau a gwasanaethau moesegol i genhedlaeth newydd o ddefnyddwyr, gan helpu Cymru i ddenu a chadw niferoedd uchel o bobl ifanc.

Gallai mentrau cymdeithasol ddefnyddio technoleg ddigidol i hyrwyddo'u heffeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i'r eithaf. Gallai ein sector fod wrth galon y mudiad Tech for Good, gan ddefnyddio technolegau digidol i fynd i'r afael â heriau cymdeithasol ac amgylcheddol trwy ddatblygiad a arweinir gan y defnyddiwr. Gallwn helpu sicrhau bod technoleg yn cael ei defnyddio'n gyfrifol a'i bod yn cael ei gwneud a'i tharddu'n foesegol. Un o effeithiau cadarnhaol y pandemig yw'r ffordd y mae llawer o fentrau cymdeithasol wedi coleddu technoleg ddigidol, er enghraifft, hwyluso gweithio gartref i staff, symud gwerthiannau ar-lein ac addasu gwasanaethau i gadw cysylltiad 'rhithwir' gyda chleientiaid sy'n agored i niwed.



# EIN GWELEDIGAETH AR GYFER MENTER GYMDEITHASOL



# MENTRAU CYMDEITHASOL WRTH GALON CYMRU DECACH, FWY CYNALIADWY A MWY FFYNIANNUS

Fel sector, ein gweledigaeth yw Cymru lle:

- Bydd y gallu a'r adnoddau gan y sector y mae eu hangen arno i ymgymryd â'r heriau sy'n wynebu Cymru. Byddwn yn tyfu ac yn datblygu'r sector erbyn 2030 trwy gynyddu nifer y mentrau cymdeithasol, eu trosiant cyfunol a'u heffaith gymdeithasol.
- Mae menter gymdeithasol yn rhan annatod, a gweladwy, o fywyd bob dydd. Rydym eisiau dod â phobl ynghyd i wneud i newid cadarnhaol ddigwydd a sicrhau bod gan y mentrau cymdeithasol y tu ôl i'r newid hwn y proffil y maent yn ei haeddu/ei angen.
- Erbyn 2030, menter gymdeithasol fydd y model busnes a ddewisir ar gyfer entrepreneuriaid sy'n cyflawni atebion i heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Cymru fydd y lle gorau i ddechrau a thyfu menter gymdeithasol.
- Rydym eisiau adeiladu mudiad eang, wedi'i glymu gan egwyddorion a gwerthoedd cyffredin. Byddwn yn datblygu cynghreiriau moesegol gyda mudiad ehangach o fusnesau a mudiadau cymdeithasol gyfrifol gyda'r nod o adeiladu economïau democrataidd, cynaliadwy a chynhwysol a mynd i'r afael â'n hargyfwng hinsawdd.
- Mae'r sector menter gymdeithasol yn cael ei gefnogi a'i ddatblygu wrth iddo godi o'r pandemig COVID-19.

# YMDRECH GYFUNOL

Deilliodd y ddogfen hon o broses gyfunol yn cynnwys mentrau cymdeithasol a chyrff cymorth sector ac mae ganddi gefnogaeth Llywodraeth Cymru. Dros gyfnod o rai misoedd cynhaliwyd trafodaethau, ac yn ystod y trafodaethau hynny daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg.

**Gwelededd a dylanwad –** mae angen i'r sector fod yn fwy gweladwy fel bod pobl yn ymwybodol o'i bwysigrwydd a'i effaith. Dim ond bryd hynny y bydd mwy o bobl yn prynu oddi wrth fentrau cymdeithasol, yn gwirfoddoli drostynt, yn ymgeisio am swyddi neu hyd yn oed yn cychwyn mentrau cymdeithasol newydd.

**Arweinyddiaeth a chynrychiolaeth –** i sicrhau bod y sector yn ffynnu, mae angen mwy o arweinyddiaeth. Dylai'r arweinyddiaeth hon gael ei darparu gan bartneriaeth o sefydliadau sy'n cynrychioli mentrau cymdeithasol, cyrff cymorth a Llywodraeth Cymru. Dim ond gyda'r arweinyddiaeth hon y bydd gan y sector lais cryf ac y cyflawnir uchelgeisiau'r cynllun hwn.

**Mentora a rhwydweithio –** mae mentrau cymdeithasol yn gwerthfawrogi cymorth ymarferol gan eu cymheiriaid. Mae'n rhaid i rwydweithio a mentora rhwng cymheiriaid gynyddu er mwyn galluogi'r sector i deimlo'n fwy cysylltiedig, i siarad fel un llais, a ffynnu.

**Cymorth arbenigol –** er bod mentrau cymdeithasol yn wynebu llawer o'r un rhwystrau â busnesau prif ffrwd, mae ganddynt heriau penodol hefyd. Mae eu hymagwedd sylfaen driphlyg a'u gwerthoedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, ynghyd â strwythurau perchnogaeth a modelau llywodraethu gwahanol, yn mynnu ymagweddau gwahanol. Am y rheswm hwn, mae angen cyngor busnes arbenigol arnynt ac opsiynau cyllid pwrpasol.

O'r themâu hyn, mae cynllun gweithredu wedi'i lunio sy'n tynnu ynghyd y deilliannau y mae pob un ohonom am eu gweld, gyda manylion ynglŷn â'r effaith a'r gwerth y bydd y deilliannau hyn yn eu creu.

Mae'r deilliannau hyn yn uchelgeisiol, ac mae'r sector yn cydnabod mai dim ond drwy ymdrech gyfunol y cânt eu cyflawni. Ni all yr un sefydliad ar ei ben ei hun gyflawni'r cynllun. Bydd yn gofyn bod pob rhan o'r mudiad menter gymdeithasol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, entrepreneuriaid cymdeithasol a chyrff cymorth, yn cydweithio ac yn cyfranogi'n weithgar wrth gynllunio, cyflawni a gwerthuso.

Bydd Llywodraeth Cymru yn bartner gweithgar wrth gyflawni'r cynllun hwn. Nid yn unig y mae wedi ymrwymo i ailadeiladu a thyfu'r sector menter gymdeithasol, ond bydd yn buddsoddi adnoddau – adnoddau dynol, ariannol, ffisegol a gwybodaeth – er mwyn cyflawni'r weledigaeth.

# CYNLLUN GWEITHREDU I GYFLAWNI'R WELEDIGAETH

Nod y cynllun a amlinellir yma yw ailadeiladu, tyfu a chryfhau'r sector menter gymdeithasol a'i alluogi i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Cymru. Mae'n gynllun gweithredu dynamig ar gyfer 2020-2023, cynllun y gobeithiwn y bydd yn tyfu ac yn datblygu ar sail arloesed ac amrywiaeth ein sector. O ystyried yr amserau heriol sydd o'n blaenau, bwriadwn adolygu'r cynllun gweithredu yn rheolaidd hefyd er mwyn sicrhau ei berthnasedd a'i gyd-destun, wrth i Gymru ddod allan o'r pandemig COVID-19.

# DIFFINIADAU

Mae'r cynllun yn cynnwys y canlynol:

**Deilliannau –** newidiadau a gyflawnir gan y rhaglen gweithgarwch y gellir eu mesur yn wrthrychol
**Effeithiau –** effeithiau ehangach y deilliannau
**Buddion –** canlyniadau y byddai rhanddeiliaid (gan gynnwys entrepreneuriaid cymdeithasol, cymunedau, cwsmeriaid, neu wleidyddion etholedig) yn ystyried bod gwerth iddynt
**Dangosyddion –** medryddion neu fesuryddion newid neu effaith y gellir eu mesur

# CRYNODEB O'R DEILLIANNAU


1. Bydd mwy o bobl yn dewis ymgysylltu â mentrau cymdeithasol – fel cwsmeriaid, cyflogeion, gwirfoddolwyr neu arweinwyr
2. Bydd mwy o bobl yn dewis model menter gymdeithasol i ddechrau busnes newydd
3. Bydd gwleidyddion yn rhoi blaenoriaeth i atebion menter gymdeithasol wrth ystyried sut i fynd i'r afael â phroblemau a chreu amodau sy'n helpu mentrau cymdeithasol i ailadeiladu a ffynnu
4. Bydd mentrau cymdeithasol wedi'u cysylltu'n well â'i gilydd a byddant yn siarad gyda llais mwy unedig
5. Bydd mentrau cymdeithasol yn chwarae rhan fwy i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwarchod yr amgylchedd
6. Bydd mentrau cymdeithasol yn mabwysiadu arferion Gwaith Teg, yn talu'r Cyflog Byw ac yn cynyddu amrywiaeth ymhlith eu cyflogeion a gwirfoddolwyr.
7. Bydd mentrau cymdeithasol yn gallu manteisio'n well ar dechnoleg ddigidol er lles cymdeithasol
8. Bydd ystod a gwerth opsiynau cyllid wedi'u teilwra at anghenion mentrau cymdeithasol yn cynyddu
9. Bydd cymorth busnes arbenigol o ansawdd da, wedi'i deilwra at anghenion y sector, ar gael i bawb y mae ei angen arnyn nhw

# DEILLIANT



# DEILLIANT 1:

## BYDD MWY O BOBL YN DEWIS YMGYSYLLTU Â MENTRAU CYMDEITHASOL – FEL CWSMERIAID, CYFLOGEION, GWIRFODDOLWYR NEU ARWEINWYR



### Effaith

- Cadw a thyfu nifer o fentrau cymdeithasol sy'n gweithredu yng Nghymru
- Mae mentrau cymdeithasol yn dechrau ailadeiladu eu hincwm masnachu
- Mae mentrau cymdeithasol yn cynyddu cyfanswm eu trosiant a chanran eu hincwm o fasnachu
- Mae mentrau cymdeithasol yn gallu denu mwy o ymgeiswyr am swyddi a chyflogi mwy o bobl
- Mae'r sector yn parhau i ymgysylltu â gwirfoddolwyr sydd wedi gweithio mewn cymunedau lleol yn ystod y pandemig
- Mae ganddynt fwy o arian i'w roi tuag at eu hamcanion cymdeithasol, gan gynyddu'u heffaith gymdeithasol

### Buddion

- Mae mentrau cymdeithasol yn gryfach, yn wydn ac yn fwy cynaliadwy – maent yn llai tebygol o fethu
- Caiff diweithdra ei leihau, ac mae mwy o bobl yn cael eu cyflogi mewn swyddi o ansawdd, sy'n talu Cyflog Byw, yn agosach i gartref
- Ceir llai o dlodi
- Parhad o rai o'r mentrau a'r ymatebion cymunedol 'da' sydd wedi'u cychwyn, o ganlyniad i COVID-19
- Nifer fwy o wirfoddolwyr
- Mae mwy o arian yn cael ei gadw a'i ail-fuddsoddi o fewn cymunedau, gan ysgogi busnesau eraill yn yr economi sylfaenol
- Twf cadwyni cyflenwi lleol
- Mae effaith gymdeithasol ac amgylcheddol y sector yn cynyddu
- Menter gymdeithasol i helpu creu gwydnwch o fewn cymunedau
- Llai o ddibyniaeth ar gymorth ariannol o sefydliadau'r sector cyhoeddus

### Camau gweithredu

- Annog awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill i gynnwys mentrau cymdeithasol yn eu cadwyni cyflenwi
- Lobïo cyrff cyhoeddus i sicrhau bod eu prosesau caffael yn briodol i fentrau cymdeithasol
- Cyflawni ymgyrchoedd ymwybyddiaeth wedi'u cydlynu ar draws y sector, gan dargedu'r cyhoedd
- Annog mwy o fentrau cymdeithasol i gyfranogi mewn ymgyrchoedd ymwybyddiaeth (e.e. darparu astudiaethau achos; cynnal cyfweliadau gyda'r cyfryngau; cyfranogi mewn gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol; arddangos deunyddiau man gwerthu)
- Cynorthwyo mentrau cymdeithasol i ymgymryd â'u gwaith cynyddu ymwybyddiaeth eu hunain trwy ddatblygu a darparu hyfforddiant ac adnoddau

### Dangosyddion perfformiad allweddol

- Trosiant y sector
- Canran yr incwm a gynhyrchir o weithgareddau masnachu
- Nifer y bobl a gyflogir yn y sector
- Nifer y bobl sy'n gwirfoddoli yn y sector
- Canran yr elw a fuddsoddwyd mewn cymuned neu amcan cymdeithasol/amgylcheddol

## DEILLIANT 2:

# BYDD MWY O BOBL YN DEWIS MODEL MENTER GYMDEITHASOL I DDECHRAU BUSNES NEWYDD



## Effaith

- Mae nifer y mentrau cymdeithasol yn cynyddu
- Mae gallu'r sector i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol ac amgylcheddol yn cynyddu

## Buddion

- Daw'r sector yn rhan fwy arwyddocaol o economi Cymru, yn fwy gweladwy ac yn cael ei werthfawrogi mwy
- Mae effaith gymdeithasol ac amgylcheddol y sector yn cynyddu
- Mae pobl ifanc yn fwy tebygol o aros yng Nghymru fel y lle gorau i ddechrau a thyfu menter gymdeithasol
- Mae mwy o bobl sydd â phrofiad o fyw gyda phroblem gymdeithasol yn dechrau menter gymdeithasol

## Camau gweithredu

- Datblygu a darparu adnoddau ar gyfer ymarferwyr addysgol a dysgwyr ynglŷn â menter gymdeithasol, yn unol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd
- Annog dysgwyr i ymgymryd â her menter gymdeithasol Bagloriaeth Cymru
- Hyrwyddo argaeledd siaradwyr dros fenter gymdeithasol a lleoliadau profiad gwaith drwy Gyrfa Cymru
- Gwreiddio a chynyddu ymwybyddiaeth o fodelau menter gymdeithasol trwy raglenni entrepreneuriaeth ieuenctid
- Datblygu hyfforddiant a deunyddiau cwricwlwm ar gyfer timau menter ac academyddion i hyrwyddo ymwybyddiaeth a chyfleoedd atebion menter gymdeithasol ym mhob prifysgol yng Nghymru
- Datblygu a chynnal portffolio hyfforddiant perthnasol ar gyfer entrepreneuriaid cymdeithasol presennol, y rhai sy'n gweithio yn y sector a'r rhai sy'n dymuno dechrau menter gymdeithasol
- Datblygu potensial Arweinwyr a sgiliau Arweinyddiaeth yn y sector, gan gynnwys yr Arweinwyr hynny sydd â phrofiad personol eu hunain
- Creu cyfleoedd i entrepreneuriaid i gyd-greu a dylunio atebion i broblemau cymdeithasol
- Cynyddu ymwybyddiaeth o fodelau menter gymdeithasol ymhlith cynghorwyr cymorth busnes y brif ffrwd
- Cyfranogi mewn ymgyrchoedd marchnata ac allgymorth sy'n annog hunangyflogaeth ac entrepreneuriaeth er mwyn hyrwyddo opsiynau menter gymdeithasol
- Cefnogi a chyfranogi mewn ymchwil menter gymdeithasol er mwyn llywio polisi ac ymarfer

## Dangosyddion perfformiad allweddol

- Nifer o fentrau cymdeithasol newydd wedi'u creu

# DEILLIANT 3:

## BYDD LLUNWYR POLISI[2] YN RHOI BLAENORIAETH I ATEBION MENTER GYMDEITHASOL WRTH YSTYRIED SUT I FYND I'R AFAEL Â PHROBLEMAU A BYDDANT YN CREU AMODAU SY'N HELPU MENTRAU CYMDEITHASOL I AILADEILADU A FFYNNU

### Effaith

- Amcanion cymdeithasol yn hytrach nag elw yw'r prif gymhelliant wrth ystyried sut i gyflenwi cynhyrchion a gwasanaethau
- Mae cwsmeriaid, cyflogeion a defnyddwyr yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â gwneud penderfyniadau, sy'n agored a theg
- Bydd gofynion y ddeddfwriaeth bresennol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) yn cael eu bodloni
- Ni fydd rhaid i fentrau cymdeithasol oresgyn rhwystrau deddfwriaethol a biwrocratiaeth i gyflawni'u nodau

### Buddion

- Mae gan fentrau cymdeithasol fwy o gyfleoedd i ddatblygu, arallgyfeirio a thyfu'u busnesau, yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau
- Mae cymunedau yn teimlo'n llai difreiniedig; mae rhaniadau cymdeithasol a gwleidyddol yn gwella
- Mae lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn gwella
- Mae gan fentrau cymdeithasol fwy o amser, arian ac adnoddau i'w neilltuo i gyflawni newid cadarnhaol
- Mae effaith gymdeithasol ac amgylcheddol y sector yn cynyddu
- Mae'r economi sylfaenol yn tyfu, gan wella economi gyffredinol Cymru

### Camau gweithredu

- Sefydlu adnodd polisi pwrpasol i reoli gwaith materion cyhoeddus ar ran y sector gyda'r nod o ddylanwadu ar lunwyr polisi ar bob lefel
- Sicrhau y cedwir ac y cynhelir menter gymdeithasol mewn portffolio Gweinidogol a bod y Gweinidog dan sylw yn hyrwyddo ac yn eiriol dros y sector
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r sector ymhlith portffolios Gweinidogol perthnasol eraill
- Lobïo dros newidiadau gwleidyddol fel gwelliannau i arferion caffael, hawliau cymunedol gwell, gan gynnwys Hawl y Gymuned i Brynu, a mabwysiadu ymagwedd fuddsoddi hirdymor
- Codi proffil ac ymwybyddiaeth o gyfraniad economaidd y sector ymhlith arweinwyr y pedair Bargen Ddinesig a Phartneriaethau Datblygu yng Nghymru
- Recriwtio mentrau cymdeithasol i gyfranogi mewn ymgyrchoedd (e.e. astudiaethau achos; siarad mewn digwyddiadau; ymateb i ymgynghoriadau; cyfranogi mewn gwrthdystiadau, deisebau, ymgyrchoedd yn y cyfryngau cymdeithasol ac ymgyrchoedd llythyr)
- Cefnogi mentrau cymdeithasol i ymgymryd â'u gwaith materion cyhoeddus eu hunain trwy ddarparu hyfforddiant ac adnoddau
- Gwneud ymchwil a chynhyrchu adroddiadau polisi i ddylanwadu ar benderfyniadau polisi a llywio arfer gorau

### Dangosyddion perfformiad allweddol

- Ymwybyddiaeth o fenter gymdeithasol ymhlith llunwyr polisi
- Ffafrioldeb tuag at fentrau cymdeithasol ymhlith llunwyr polisi
- Newidiadau deddfwriaethol o ganlyniad i'n dylanwad ni
- Nifer o fentrau cymdeithasol yn adrodd am faterion rheoleiddio/cyfreithiol fel y prif rwystr rhag twf neu gynaliadwyedd
- Nifer o fentrau cymdeithasol yn adrodd am hygyrchedd comisiynu/caffael gyda gwasanaethau cyhoeddus fel y prif rwystr rhag twf neu gynaliadwyedd
- Nifer o fentrau cymdeithasol yn masnachu y tu allan i Gymru

[2] Mae'r term llunwyr polisi yn cynnwys gwleidyddion a chynrychiolwyr etholedig ar bob lefel yn ogystal â gweision sifil a swyddogion – y DU, Cymru, rhanbarthol, awdurdod lleol, tref a chymuned

# DEILLIANT 4:

## BYDD MENTRAU CYMDEITHASOL WEDI'U CYSYLLTU'N WELL Â'I GILYDD A BYDDANT YN SIARAD GYDA LLAIS MWY UNEDIG



### Effaith

- Mae mentrau cymdeithasol yn cefnogi'i gilydd; maent yn rhannu gwybodaeth a sgiliau, yn arloesi ac yn datrys problemau cymhleth gyda'i gilydd
- Mae mentrau cymdeithasol wedi'u cysylltu'n well ac yn fwy gwydn
- Mae rhwydweithiau amrywiol a bywiog yn datblygu sy'n adeiladu mudiad dros newid
- Mae gan y sector lais cryfach a chliriach sy'n haws i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'r cyhoedd ei glywed

### Buddion

- Mae mentrau cymdeithasol yn rhannu adnoddau a gwybodaeth i ddod o hyd i atebion gwell, gan gynyddu'u heffeithlonrwydd a'u gwydnwch
- Maent yn gweithio ar y cyd i gyflawni contractau cyhoeddus neu gontractau eraill a mentrau ar y cyd
- Maent yn dysgu o beth sy'n gweithio, a beth sydd ddim yn gweithio
- Mae gwelededd a dylanwad y sector yn cynyddu

### Camau gweithredu

- Hyrwyddo rhwydweithiau presennol sy'n cael eu harwain gan gymunedau/ ymarferwyr, a chefnogi rhwydweithiau mentrau cymdeithasol thematig neu ddaearyddol newydd
- Nodi bylchau rhanbarthol a sector ac archwilio cyfleoedd i sefydlu rhwydweithiau ffisegol neu ddigidol i bontio'r bylchau hyn
- Cefnogi digwyddiadau sy'n galluogi mentrau cymdeithasol i gysylltu â'i gilydd, rhannu gwybodaeth, bod â llais cryfach ac arloesi i ddatrys problemau
- Annog cydweithio a datblygu mannau cydweithredu i greu a phrofi atebion sy'n mynd i'r afael â materion cymdeithasol
- Creu swyddogaeth gynrychioliadol sy'n dod ag asiantaethau cymorth ac ymarferwyr menter gymdeithasol at ei gilydd mewn cynghrair ffurfiol, wedi'i rheoli gan femorandwm cyd-ddealltwriaeth neu gytundeb partneriaeth
- Cynnwys mentrau cymdeithasol mewn polisi ac ymgyrchoedd cyfathrebu er mwyn sicrhau bod gweithgareddau yn gynrychioliadol a chyson
- Archwilio brand neu farc ar gyfer mentrau cymdeithasol

### Dangosyddion perfformiad allweddol

- Nifer o ddigwyddiadau cymunedol cenedlaethol a rhanbarthol yn cael eu cynnal gyda mentrau cymdeithasol; yn cynnwys digwyddiadau rhithwir
- Nifer o fentrau cymdeithasol yn cydweithio, er enghraifft, drwy ymuno â threfniadau ceisiadau ar y cyd i dendro am gontractau
- Nifer o fentrau cymdeithasol yn gysylltiedig â chymorth a dysgu rhwng cymheiriaid
- Nifer o ymatebion ar y cyd i ymgynghoriadau wedi'u cyflwyno gan y sector
- Cyfranogiad gweithgar yn y swyddogaeth gynrychioliadol

# DEILLIANT 5:

# BYDD MENTRAU CYMDEITHASOL YN CHWARAE RHAN FWY I FYND I'R AFAEL Â'R ARGYFWNG HINSAWDD A GWARCHOD YR AMGYLCHEDD



## Effaith

- Mae mentrau cymdeithasol yn newid eu harferion gweithio er mwyn lleihau eu hôl-troed carbon a'u heffaith amgylcheddol; maent yn gallu defnyddio adnoddau naturiol yn ddoeth i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd
- Mae mentrau cymdeithasol newydd yn cael eu sefydlu sy'n gweithredu yn y sector amgylcheddol, ac mae ganddynt amcanion amgylcheddol, fel mynd i'r afael â'r hinsawdd yn newid
- Mae mentrau cymdeithasol yn darparu hyfforddiant i bobl a gyflogir mewn ystod o sectorau, gan gynnwys diwydiannau tanwydd ffosil a diwydiannau sy'n allyrru llawer o garbon, gan eu galluogi i drosglwyddo i swyddi mewn diwydiannau gwyrdd

## Buddion

- Mae rôl menter gymdeithasol wrth fynd i'r afael â'r hinsawdd yn newid, cynyddu bioamrywiaeth a gwella amgylcheddau lleol yn cael ei chydnabod
- Byddant yn ysbrydoli ac yn arwain trosglwyddiad gwyrdd o fewn eu cymunedau
- Daw Cymru yn wlad fwy cynaliadwy ac mae'n lleihau ei hôl-troed carbon a'i heffaith amgylcheddol yn unol â'r Datganiad Argyfwng Hinsawdd gan Lywodraeth Cymru ac eraill

## Camau gweithredu

- Datblygu a hyrwyddo hyfforddiant ac adnoddau i helpu mentrau cymdeithasol i leihau eu hôl-troed carbon
- Cynorthwyo mentrau cymdeithasol i ennill achrediadau amgylcheddol
- Ceisio cael cyllid tymor byr a thymor hir i gefnogi gweithredu amgylcheddol ymhlith mentrau cymdeithasol a'r economi gylchol

## Dangosyddion perfformiad allweddol

- Nifer o fentrau cymdeithasol yn gweithredu yn y sector amgylcheddol
- Nifer o fentrau cymdeithasol yn meddu ar achrediad amgylcheddol
- Effaith amgylcheddol mentrau cymdeithasol yn y cymunedau lle maent yn gweithredu

# DEILLIANT 6:

# BYDD MENTRAU CYMDEITHASOL YN MABWYSIADU ARFERION GWAITH TEG[3] YN TALU'R CYFLOG BYW AC YN CYNYDDU AMRYWIAETH YMHLITH EU CYFLOGEION A GWIRFODDOLWYR



## Effaith

- Mae mentrau cymdeithasol yn dod yn gyflogwyr o ddewis ac yn arwain y ffordd mewn Gwaith Teg yng Nghymru
- Maent yn gynrychioliadol o'r Gymdeithas yng Nghymru yn ei chyfanrwydd
- Mae defnyddwyr moesegol yn cael eu cymell i brynu ganddynt

## Buddion

- Mae mentrau cymdeithasol yn gallu recriwtio a chadw cyflogeion talentog
- Maent yn elwa o'r cryfderau a'r doniau y mae amrywiaeth yn cyfrannu at y gweithle
- Mae lefel uwch o foddhad ymhlith cyflogeion yn arwain at berfformiad busnes gwell, arloesi a chynhyrchiant gwell
- Mae gwerthiannau'n cynyddu wrth i ddefnyddwyr moesegol wneud penderfyniadau prynu ar sail arferion cyflogaeth teg
- Mae cyflogeion mewn mentrau cymdeithasol yn ennill cyflog sy'n gyson â'u hyfforddiant a'u galluoedd; mae eu safon byw yn dda, ac maent yn ariannol sicr
- Mae'r gymuned gyffredinol yn elwa, wrth i sgiliau lleol gael eu defnyddio ac wrth i fwy o arian gylchredeg yn yr economi leol
- Mae tlodi ac anghydraddoldeb yn lleihau
- Ceir cynnydd o ran defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

## Camau gweithredu

- Cynyddu ymwybyddiaeth yn y sector o werth Gwaith Teg ac amrywiaeth
- Darparu cymorth ac adnoddau i helpu mentrau cymdeithasol i weithredu Gwaith Teg a gwelliannau i amrywiaeth
- Cynorthwyo mentrau cymdeithasol i ennill achrediad Cyflog Byw
- Datblygu a hyrwyddo hyfforddiant ac adnoddau er mwyn helpu mentrau cymdeithasol i recriwtio aelodau Bwrdd a thimau arwain mwy amrywiol
- Gwella argaeledd hyfforddiant ac adnoddau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg

## Dangosyddion perfformiad allweddol

- Canran y mentrau cymdeithasol sy'n talu'r Cyflog Byw gwirioneddol
- Amrywiaeth timau arwain mentrau cymdeithasol
- Amrywiaeth pobl a gyflogir yn y sector
- Canran y mentrau cymdeithasol sy'n rhoi mesurau ar waith i wneud eu nwyddau a'u gwasanaethau yn hygyrch i bawb
- Canran y mentrau cymdeithasol sy'n cynnig gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg



[3] Gwaith teg yw lle mae gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, eu clywed a'u cynrychioli'n deg, yn ddiogel ac yn gallu symud ymlaen mewn amgylchedd iach, cynhwysol lle mae hawliau'n cael eu parchu. Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gwaith-teg-cymru.pdf

# DEILLIANT 7:

# BYDD MENTRAU CYMDEITHASOL YN GALLU MANTEISIO'N WELL AR DECHNOLEG DDIGIDOL ER LLES CYMDEITHASOL



## Effaith

- Mae defnyddio technoleg ddigidol yn gwneud mentrau cymdeithasol yn fwy effeithlon ac effeithiol
- Maent yn fwy ystwyth wrth ymateb i anghenion eu cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth
- Mae mentrau cymdeithasol wedi'u cysylltu'n well ac yn ymgysylltu mwy â'i gilydd a'u cymunedau

## Buddion

- Mae arbedion yn digwydd o ran costau ac amser, sy'n golygu y gellir ailddefnyddio adnoddau i gynyddu effaith gymdeithasol ac amgylcheddol
- Mae atebion digidol, yn cynnwys mentrau fel trefniadau gweithio gartref a chyfarfodydd bwrdd rhithwir, yn lleihau ôl-troed carbon
- Mae boddhad cwsmeriaid yn cynyddu, gan arwain at gadw mwy o gwsmeriaid chostau marchnata is
- Mae mwy o bobl yn ymwybodol o atebion a chyfleoedd menter gymdeithasol

## Camau gweithredu

- Cynorthwyo mentrau cymdeithasol i weithredu atebion technoleg ddigidol trwy ddarparu hyfforddiant ac adnoddau
- Cyd-greu atebion gyda mentrau cymdeithasol sy'n seiliedig ar dechnoleg
- Rhannu a hyrwyddo arfer da ac arloesi digidol ymhlith y sector

## Dangosyddion perfformiad allweddol

- Nifer o fentrau cymdeithasol yn adrodd am sgiliau digidol fel bwlch sgiliau yn eu sefydliad
- Nifer o fentrau cymdeithasol yn defnyddio marchnata digidol i ddenu cwsmeriaid newydd
- Nifer o fentrau cymdeithasol yn gwerthu cynhyrchion ar-lein

# DEILLIANT 8:

# BYDD YSTOD A GWERTH OPSIYNAU CYLLID[4] WEDI'U TEILWRA AT ANGHENION MENTRAU CYMDEITHASOL YN CYNYDDU



## Effaith

- Mae mentrau cymdeithasol yn gallu cael mynediad at gyllid priodol, gan gynnwys cyllid cyfalaf, i'w cynorthwyo ym mhob cam datblygu, gan gynnwys y cyfnod ymadfer ac ailadeiladu yn dilyn COVID-19
- Bydd mwy o gyllid ar gael i ymdopi â galw cynyddol ac amrywiaeth sector mwy

## Buddion

- Mae mentrau cymdeithasol yn gallu cael mynediad at becynnau ariannol i ailadeiladu, arallgyfeirio a/neu ganolbwyntio eu gweithgareddau yn dilyn y pandemig COVID-19
- Mae mentrau cymdeithasol yn cael cymorth ariannol i gychwyn ac yng nghyfnodau cynnar masnachu. Gallant ehangu'n gyflymach gyda buddsoddiad newydd. Mae ganddynt rwyd ddiogelwch mewn cyfnod economaidd heriol
- Mae mentrau cymdeithasol yn gallu cael mynediad at gymorth ariannol i dyfu'u sefydliadau, gan gynnwys buddsoddiad ar gyfer prosiectau cyfalaf

## Camau gweithredu

- Mapio'r ddarpariaeth gyllid bresennol (rhanbarthol a chenedlaethol), gan amlygu gwahanol arbenigeddau a bylchau
- Sicrhau bod y wybodaeth hon yn hygyrch drwy un porth unigol, a bod holl gyrff a rhwydweithiau cymorth y sector yn cyfeirio ato
- Lobïo dros gyllid ychwanegol i'r sector sy'n helpu mentrau cymdeithasol i gychwyn, symud ymlaen a ffynnu. Bydd hyn yn cynnwys opsiynau grant cyfalaf a refeniw a chyllid benthyciadau fforddiadwy
- Gweithio gyda chyllidwyr presennol, buddsoddwyr a banciau prif ffrwd i sicrhau bod eu cynhyrchion a'u prosesau yn briodol i fentrau cymdeithasol
- Wrth i Gymru symud tuag at ymagwedd Cyllid Rhanbarthol, cynyddu ymwybyddiaeth o'r sector a'i anghenion gyda sefydliadau cyllid rhanbarthol
- Cydweithio gyda Banciau Cymunedol, Cwmnïau Cydfuddiannol ac Undebau Credyd i sicrhau eu bod yn cynnig cynhyrchion a gwasanaethau ariannol sy'n hygyrch ac yn berthnasol i fenter gymdeithasol

## Dangosyddion perfformiad allweddol

- Nifer o fentrau cymdeithasol yn denu buddsoddiad
- Nifer o fentrau cymdeithasol yn adrodd am fynediad at gyllid fel y prif rwystr rhag twf neu gynaliadwyedd
- Nifer o fentrau cymdeithasol yn adrodd am broblemau gyda llif arian parod neu hyfywedd

[4] Mae'r term 'cyllid' yn disgrifio gweithgareddau sy'n gysylltiedig â bancio, trosoledd neu ddyled, grantiau, credyd, arian a buddsoddi

# DEILLIANT 9:

# BYDD CYMORTH BUSNES ARBENIGOL O ANSAWDD DA, WEDI'I DEILWRA AT ANGHENION Y SECTOR, AR GAEL I BAWB Y MAE EI ANGEN ARNYN NHW



## Effaith

- Gall mentrau cymdeithasol gael mynediad at gymorth cynhwysol, priodol ac amserol beth bynnag yw eu cefndir, maint neu anghenion
- Mae argaeledd cymorth yn ddigidol yn cynyddu
- Bydd mwy o gymorth ar gael i ymdopi â'r galw cynyddol o sector ffyniannus a sector mwy

## Buddion

- Mae mentrau cymdeithasol yn gallu addasu ac arallgyfeirio'u harferion busnes i gydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol
- Gall mentrau cymdeithasol gael eu cyfeirio at gymorth ariannol perthnasol i ailadeiladu/canolbwyntio/arallgyfeirio eu sefydliadau
- Mae mentrau cymdeithasol ar unrhyw gyfnod neu mewn unrhyw sector yn fwy tebygol o lwyddo
- Mae mentrau cymdeithasol yn cynyddu'u hyfywedd yn ogystal â'u heffaith gymdeithasol ac amgylcheddol

## Camau gweithredu

- Mapio'r ddarpariaeth cymorth busnes bresennol (rhanbarthol a chenedlaethol), gan amlygu gwahanol arbenigeddau a bylchau
- Sicrhau bod y wybodaeth hon yn hygyrch drwy un porth unigol, a bod holl gyrff a rhwydweithiau cymorth y sector yn cyfeirio ato
- Ymchwilio i ffyrdd o ddefnyddio technoleg ddigidol i sicrhau bod gwasanaethau'n fwy effeithlon, effeithiol a hygyrch
- Lobïo'r Llywodraeth i sicrhau bod cyllid ar gyfer cymorth busnes arbenigol yn parhau
- Ceisio cael cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth mewn sectorau a rhwydweithiau penodol sy'n datblygu modelau ac atebion menter gymdeithasol

## Dangosyddion perfformiad allweddol

- Nifer o fentrau cymdeithasol yn adrodd bod mynediad at gymorth busnes wedi bod o fudd i'w goroesiad, gwydnwch, twf, cynaliadwyedd neu effaith
- Nifer o fentrau cymdeithasol yn adrodd datblygu sgiliau/arbenigedd arwain priodol fel y prif rwystr i gynyddu'u twf, cynaliadwyedd neu effaith

# ATODIAD:

## BETH YW MENTER GYMDEITHASOL?

Menter gymdeithasol yw busnes ag amcanion cymdeithasol yn bennaf, y mae ei wargedau wedi'u hailfuddsoddi yn y busnes neu yn y gymuned yn bennaf, yn hytrach na'i fod yn cael ei yrru gan yr angen i hyrwyddo elw i'r eithaf ar gyfer rhanddeiliaid a pherchnogion.

Mae eu diben cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd neu ddiwylliannol wrth galon yr hyn a wnânt. Mae hyn yn cynnwys lleihau problemau cymdeithasol, mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gwella'r amgylchedd, adeiladu cymunedau cryfach a darparu hyfforddiant a chyflogaeth i'r rheiny sydd bellaf i ffwrdd oddi wrth y farchnad lafur. Maent yn helpu adeiladu economïau lleol, gan sicrhau bod cyfoeth ac adnoddau yn cael eu creu a'u hailfuddsoddi mewn cymunedau lleol.

Eu nod yw gwneud elw, ond yn wahanol i fusnesau prif ffrwd caiff yr elw ei ail-fuddsoddi tuag at dwf busnes, a hyrwyddo'u diben cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd neu ddiwylliannol. Amlinellir y diben hwn yn eu dogfennau llywodraethu.

# CEFNOGI ENTREPRENEURIAETH GYMDEITHASOL

Er nad yw hynny wedi'i bennu, nod y weledigaeth a'r cynllun gweithredu hwn hefyd fyddai tyfu entrepreneuriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Mae entrepreneuriaid cymdeithasol yn ceisio adeiladu cymdeithas well trwy fenter ac maent yn chwarae rhan bwysig i greu Cymru decach, fwy cynaliadwy a mwy ffyniannus.

# BYW EIN GWERTHOEDD – EIN FFYRDD O WEITHIO

Mae mentrau cymdeithasol yn sefydliadau a arweinir gan werthoedd. Golyga'r gwerthoedd hyn eu bod mewn lle unigryw i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Cymru mewn ffyrdd sydd o fudd i bawb. Mae'r gwerthoedd hyn yn cynnwys:

- Bod yn drawsnewidiol a chreadigol – mae mentrau cymdeithasol yn cymryd camau i ddatrys problemau, ac yn dod â phobl at ei gilydd i wneud newidiadau sy'n effeithio arnynt yn gadarnhaol
- Bod yn gydweithredol – mae mentrau yn helpu ac yn cynorthwyo'i gilydd; maent yn rhannu gwybodaeth ac yn datrys problemau gyda'i gilydd
- Bod yn atebol – maent yn ddemocrataidd, yn cynnwys cwsmeriaid a staff mewn prosesau penderfynu agored a theg
- Bod yn gyflogwyr da – maent yn talu cyflog byw o leiaf, ac yn trin pobl yn deg. Maent yn cyflawni cyfle cyfartal, ac maent yn fwy amrywiol na busnesau yn y sector preifat
- Bod yn gyfrifol – maent yn gwerthfawrogi'r amgylchedd ac yn defnyddio adnoddau naturiol yn effeithlon ac yn ofalus er mwyn lleihau eu heffaith
- Bod yn gynhwysol – maent yn gweithio ar gyfer, ac yn gwasanaethu pob rhan o'r gymdeithas ni waeth am ryw, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, hil, crefydd neu gred

# MAE'R DDOGFEN HON WEDI'I CHYNHYRCHU A'I CHYHOEDDI GAN GRŴP LLYWIO SY'N CYNNWYS Y SEFYDLIADAU CANLYNOL:

**Antur Waunfawr:** Mae'n darparu gofal, cymorth gweithredol, hyfforddiant a chyfleoedd gwaith ystyrlon i fodloni anghenion oedolion ag anableddau dysgu a phobl ddifreintiedig yn lleol.

**Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo:** Mae'n ymroi i gynorthwyo hen drefi a phentrefi glofaol ledled Cymru a'r DU.

**Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru:** Y mudiad aelodaeth cenedlaethol a arweinir gan ymarferwyr, sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r rhwydwaith dynamig o ymddiriedolaethau datblygu sy'n berchen i gymunedau a mentrau cymunedol yng Nghymru.

**Cwmnïau Cymdeithasol Cymru:** Mae wedi ymrwymo i greu cyflogaeth i bobl ddifreintiedig trwy ddatblygu a chefnogi Cwmnïau Cymdeithasol hyfyw (un math o fenter gymdeithasol) ledled Cymru.

**UnLtd:** Mae'n canfod, yn ariannu ac yn cefnogi entrepreneuriaid cymdeithaso – pobl entrepreneuraidd sydd ag atebion sy'n newid ein cymdeithas er gwell.

**CGGC:** Fel y corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru, mae CGGC yn bodoli i alluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'n gilydd. Mae CGGC yn un o brif gyllidwyr y sector hefyd, drwy ei grantiau a'i fenthyciadau Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru.

**Canolfan Cydweithredol Cymru:** Cwmni cydweithredol annibynnol sy'n cryfhau ac yn grymuso cymunedau yng Nghymru drwy gefnogi twf cydweithfeydd a mentrau cymdeithasol a chyflawni prosiectau sy'n darparu sgiliau ac yn mynd i'r afael ag eithrio.

Gwnaed yr ymchwil a gwaith arolwg gan:

Mutuo
Eva Trier Consulting Ltd

**Canolfan Cydweithredol Cymru**
Y Borth
13 Ffordd Beddau
Caerffili
CF83 2AX

0300 111 5050

info@wales.coop

cymru.coop

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddiant Cydweithredol Cymru Cyfyngedig (sy'n masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg. Mae fformatau eraill, megis print bras neu braille, ar gael ar gais.